# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Llun, 28 Chwefror 2022**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, C.James, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, S.Paddison, S.H.Reynolds, R.L.Taylor a/ac A.N.Woolcock |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, C.Griffiths, H.Jones, C.Furlow-Harris, N.Blackmore, J.Woodman-Ralph a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr C.Clement-Williams, M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaed datganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod gan yr aelod canlynol.

Y Cynghorydd M Harvey - Parthed: Eitemau Agenda 5, 6, 7 a 9 ym mhapurau'r Cabinet gan ei fod yn gweithio i Heddlu De Cymru ond teimlai nad oedd ei ddiddordeb yn rhagfarnol.

## 2. CRAFFU CYN PENDERFYNU

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem frys ganlynol ar agenda'r Cabinet:

Cyllideb Refeniw 2022/23

Ystyriodd yr Aelodau gyllideb refeniw 2022/23 Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, gan gynnwys buddsoddiadau mewn gwasanaethau, buddsoddiadau o gronfeydd wrth gefn a lefelau Treth y Cyngor arfaethedig, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch y cynnig i rewi Treth y Cyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2022/23. Amlygwyd mai Castell-nedd Port Talbot sydd â'r drydedd gyfradd uchaf o ran Treth y Cyngor yng Nghymru. O fewn yr ymgynghoriad, nodwyd bod canran uchel o ymatebion o blaid rhewi'r gyfradd. Fodd bynnag, holwyd ynghylch y ffaith nad oedd opsiwn o fewn yr ymgynghoriad i leihau Treth y Cyngor ac roedd aelodau'n teimlo y gallai hyn fod wedi cael ymateb da hefyd. Amlygodd yr Aelodau fod eitem frys mewn perthynas â sefydlu cronfa galedi gan ddefnyddio arian o'r tanwariant hefyd o fewn y pecyn. Holodd yr Aelodau a ellid defnyddio'r arian hwnnw i dalu'r arian ychwanegol i gynnig gostyngiad yn Nhreth y Cyngor. Esboniodd swyddog Adran 151 fod dyletswydd arno i ddarparu cynigion doeth, fforddiadwy a chynaliadwy i'r Cabinet a'r cyngor eu hystyried ac o fewn ei rôl broffesiynol, roedd yn teimlo mai rhewi oedd yr opsiwn mwyaf fforddiadwy a chynaliadwy i aelodau eu hystyried. Gofynnodd yr Aelodau i'r Cabinet ailystyried lefel Treth y Cyngor a gyflwynir i'r Cabinet a'r cyngor a darparu cynnig arall sy'n dangos gostyngiad yn Nhreth y Cyngor.

Holodd yr Aelodau pe bai 3.1 miliwn yn cael ei drosglwyddo o gronfeydd wrth gefn cyffredinol y byddai 17 miliwn yn weddill. Cadarnhaodd swyddogion y byddai 17 miliwn yn weddill yn y cronfeydd wrth gefn.

Amlygwyd hefyd bod y tâl am reoli plâu wedi gostwng i dâl o £40.

Trafododd yr Aelodau'r potensial ar gyfer unrhyw faterion annisgwyl sy'n codi yn y dyfodol, yn dilyn canlyniad y pandemig. Felly, teimlai ei bod yn bwysig sicrhau y gallwn ddarparu cyfradd Treth y Cyngor fforddiadwy i'r cyhoedd ynghyd â sicrhau bod gan y cyngor gronfeydd wrth gefn cynaliadwy.

Gofynnodd yr Aelodau i'r Cabinet ystyried a fyddent yn ystyried lleihau Treth y Cyngor yn hytrach na'i rewi cyn i'r penderfyniad ar Dreth y Cyngor gael ei wneud yng nghyfarfod y Cyngor yfory, fel y'i cynhwysir ar hyn o bryd yn yr argymhellion yn y cyfarfod heddiw. O ganlyniad ymatalodd rhai aelodau rhag pleidleisio yn y bleidlais a ddilynodd hyn.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet.

Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf 2022/23 i 2024/25

Derbyniodd yr Aelodau'r Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23 i 2024/25. Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi proses gynllunio'r Rhaglen Gyfalaf ac ystyriaethau llywodraethu a chynaliadwyedd ariannol fel y nodir yn yr adroddiad o ddosbarthwyd.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch costau'r gwaith a gwblhawyd ar waith carreg Castell Margam. Nodwyd bod y gwaith wedi'i gymeradwyo fel rhan o raglen gyfalaf y llynedd.

Trafododd yr aelodau fenthyca darbodus hefyd. Nodwyd bod cyfraddau llog yn isel ar hyn o bryd. Nodwyd y byddai'r swyddog Adran 151 yn rhoi rhagor o fanylion am fenthyca darbodus y tu allan i'r cyfarfod.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Adroddiad Monitro'r Gyllideb Misol 2021/22 - fel yr oedd ar ddiwedd mis Rhagfyr 2021

Derbyniodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa gyllidebol ragamcanol y cyngor yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ers 31 Rhagfyr 2021.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yr eitem frys sydd i'w thrafod yn y cyfarfod heddiw yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

Holodd yr aelodau a ellid defnyddio'r tanwariant o £2.3 miliwn i leihau Treth y Cyngor. Eglurodd y swyddog adran 151 y byddai'r tanwariant yn cael ei ystyried gan y Cabinet.

Amlygwyd pe bai'r Cabinet yn dewis cytuno â'r Gronfa Galedi, yna roedd y cyngor wedi defnyddio'r tanwariant i gefnogi pobl mewn cyfnod anodd.

Holodd yr Aelodau ynghylch y tanwariant mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Nodwyd y derbyniwyd cyllid ac felly nid oedd angen defnyddio cyllid craidd, gan arwain at danwariant. Rhoddir yr arian mewn cronfeydd wrth gefn i gefnogi'r flwyddyn ganlynol gan nad oes sicrwydd y bydd cyllid yn cael ei dderbyn ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Monitro Cyllideb Gyfalaf 2021/22

Rhoddwyd gwybodaeth mewn perthynas â chyflawni Rhaglen Gyfalaf 2021/22 i'r aelodau.

Holodd yr aelodau ynghylch y grant a dderbyniwyd i gefnogi diogelwch tomenni glo. Gofynnwyd a oedd y grant hwn yn ddigonol. Amlygodd swyddogion eu bod yn falch o dderbyn grant a'u bod yn darparu cefnogaeth i'r tomenni glo risg uchel. Nodwyd y byddai'r swm o arian i gefnogi'r holl domenni glo yn gost enfawr ac yn annhebygol iawn o gael ei dderbyn gan y llywodraeth.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

Tynnodd swyddogion sylw at Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2022/23, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Ceisiwyd sicrwydd mewn perthynas â rheoli'r trysorlys a'r cysylltiad â'r sefyllfa genedlaethol bresennol yn Ewrop. Nodwyd bod ein holl fuddsoddiadau gyda banciau'r DU neu awdurdodau'r DU ac roedd swyddogion yn rhoi sicrwydd i aelodau nad oedd unrhyw risgiau o'r sefyllfaoedd a oedd yn dod i'r amlwg.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

## 3. **EITEMAU BRYS**

Oherwydd yr angen i ymdrin â'r mater sydd wedi'i gynnwys yng Nghofnod Rhif 12 isod, cytunodd y Cadeirydd y gellid codi hyn yn y

cyfarfod heddiw fel eitem frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Rheswm:

Oherwydd yr elfen amser.

4. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y pwyllgor ar yr eitem breifat ganlynol ar agenda'r Cabinet:

Cynnig i greu cynllun cymorth caledi wedi'i dargedu

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y cais am gyngor pellach ynghylch sut y gellir defnyddio'r tanwariant sy'n weddill ar gyfer 2021/22 i ddatblygu ystod o fesurau i gefnogi'r rheini sydd wedi'u heffeithio fwyaf gan yr argyfwng costau byw, fel y manylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nodwyd, yn dilyn cyhoeddi adroddiad monitro diweddaraf y gyllideb refeniw sy'n cynnwys manylion tanwariant pellach o £2.3m (ar ôl trosglwyddo cronfeydd wrth gefn), fod y Cabinet wedi gofyn am gyngor pellach ynghylch sut y gellir defnyddio'r tanwariant hwn i gefnogi preswylwyr y Fwrdeistref Sirol sydd ar hyn o bryd yn cael eu heffeithio fwyaf gan yr argyfwng costau byw.

Cymeradwyodd yr aelodau'r adroddiad a'r rhesymeg dros gael cronfa galedi. Holwyd pa fath o feini prawf a osodir. Nodwyd y gwneir hynny dim ond er mwyn neilltuo'r arian i ddatblygu'r cynllun ac y byddai'r meini prawf yn cael eu gosod yn ystod cyfarfod yn y dyfodol. Roedd yr Aelodau'n poeni am gefnogi'r adroddiad heb y meini prawf, fodd bynnag, roeddent yn deall egwyddor y gronfa galedi a'r meini prawf posib.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch hwyrni'r adroddiad. Eglurodd Aelod y Cabinet dros gyllid fod yr adroddiad yn hwyr oherwydd yr hysbysiad hwyr o gyfanswm y tanwariant yn dilyn cyfarfod diweddar.

Yn dilyn craffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynnig i'w ystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**